

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2019

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Sylwadau Cyffredinol

Er na chafwyd nifer fawr o ymgeiswyr yn y rownd hon o arholiadau Cyflawn, da yw medru dweud bod pawb ohonynt yn amlwg wedi deall y safon sy'n ddisgwyliedig wrth gynnig am Aelodaeth Gyflawn, a bod gwaith pawb ohonynt yn cyrraedd y safon honno, er nad oedd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn llwyddo i gynnal y safon yn y tri darn. Da hefyd oedd gweld bod safon y gwaith cartref, at ei gilydd, yn foddhaol. Ni ellir gorbwysleisio'r cyfle mae'r gwaith cartref yn ei gynnig i ymgeiswyr ddangos eu doniau, ac mae modd i ddarn o waith cartref sy'n argyhoeddi sicrhau llwyddiant i ymgeiswyr ffiniol sydd heb gael cystal hwyl arni yn yr arholiad.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 9

Llwyddo: 3

Er mai tri ymgeisydd fu'n llwyddiannus y tro hwn, braf yw gallu nodi bod cyfieithu da yng ngwaith pawb ohonynt, ac mai cynnal y safon yw'r dasg i'r ymgeiswyr aflwyddiannus wrth symud ymlaen, gan fod pob darn a gyflwynwyd yn cynnwys enghreifftiau o gyfieithu crefftus, graenus, oedd yn darllen yn naturiol. Gall pwysau amodau arholiad, yn ddigon naturiol, roi ymgeiswyr o dan straen, ond rhaid cofio mai arholiad i gyfieithwyr proffesiynol yw hwn, a bod straen a phwysau amser yn rhan annatod o waith cyfieithydd o'r fath.

Y tro hwn roedd y darn gwaith cartref yn addasiad o erthygl ar *CNET News*, ac yn enghraifft o arddull newyddiadurol oedd yn fwriadol heriol, ond yn cynnwys digonedd o gyfleoedd i gyfieithwyr dawnus ddisgleirio. Dyma rai enghreifftiau o'r cyfieithiadau llwyddiannus oedd yn taro deuddeg:

In the span of about an hour last Friday afternoon, I felt elated, proud, shaky, tearful and a little heartbroken.

O fewn cyfnod o ryw awr brynhawn Gwener diwethaf, fe deimlais yn orfoleddus, yn falch, yn grynedig, yn ddagreuol ac wedi torri 'nghalon ryw fymryn.

The rushing river of live comments next to the YouTube video heightened the emotional stakes...

Dwysaodd y teimladau emosiynol wrth weld y rhyferthwy o sylwadau byw nesaf at y fideo YouTube...

...but I could understand enough to see how invested we all were...

...ond roeddwn yn gallu deall digon i weld faint yr oedd hyn yn ei olygu i ni...

...but it's the kind of emotional galaxy I traverse every time I follow a major space event.

...ond dyma'r math o wibdaith emosiynol rydw i'n ei phrofi bob tro y byddaf yn dilyn taith ofod bwysig.

[I felt an immediate swell of pride.] Not just for India, but for humanity.

Balchder nid yn unig dros India, ond dros y ddynoliaeth.

...the tense engineers alongside the wide-eyed Indian students...

...y peirianwyr ar bigau'r drain ochr yn ochr â'r myfyrwyr llygadrwth o India...

...when it was just 1.3 miles from the lunar surface.

...pan oedd gwta 1.3 milltir oddi ar wyneb y lleuad.

Mae cynigion fel y rhain yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi llwyddo i fynd o dan groen y darn, ac maent yn cyfleu'r ystyr mewn ffordd naturiol yn yr iaith darged. Yn anffodus, ochr yn ochr â'r rhain cafwyd enghreifftiau hefyd lle nad oedd y cyfieithiad yn argyhoeddi, er enghraifft:

The rushing river of live comments next to the YouTube video...

Llwyddodd yr afon ddi-ben-draw o sylwadau byw...

Uchafodd y llif gwyllt o sylwadau byw...

This flood of emotions washed over me...

Fe'm goddiweddwyd â'r llif hwn o emosiynau...

Cefais fy nharo gan y dilyw hwn o emosiynau...

...but it's the kind of emotional galaxy I traverse every time I follow a major space event.

...ond dyma'r math o Lwybr Llaethog emosiynol yr af ar hyd-ddo bob tro y dilynaf ddigwyddiad o bwys am y gofod.

...ond mae fy myd yn llawn emosiwn bob tro y byddaf i'n dilyn hynt digwyddiad gofod pwysig.

Fel mor aml wrth gyfieithu'n broffesiynol, mewn enghreifftiau fel y rhain mae angen mynd y tu hwnt i'r geiriau unigol at wraidd yr hyn sydd dan sylw. Os glynir yn rhy agos at batrwm a geiriad y gwreiddiol, gall hynny greu ymadroddi chwithig, trwsgl, ac i greu cyfieithiad da,

mae'n hanfodol bod y trosiad yn llifo, ac yn argyhoeddi'r darlennydd. Nid yw hynny'n golygu pellhau oddi wrth ystyr y gwreiddiol, ond yn hytrach darllen y gwreiddiol yn ofalus i ddeall y neges, ac yna cyfleu'r neges honno'n eglur mewn modd sy'n peri i'r darn swinio'n naturiol yn yr iaith darged.

Siom oedd gweld ambell lithriad esgeulus hyd yn oed yn y gwaith cartref, e.e. **fod ddynol, rhaid gyfaddef, ac ar bigau'r draen**, ac roedd sawl ymgeisydd wedi cael trafferth gyda **pan nad oedd ond** (when it was just 1.3 miles), ac wedi hepgor y 'nad'. Gellid maddau ambell lithriad fel hyn o dan amodau arholiad, ond mae disgwyl i'r gwaith cartref fod yn fanwl gywir drwyddo draw.

Wrth symud ymlaen i'r darnau o dan amodau arholiad, eto cafwyd llawer o gyfieithu da, e.e.:

...in the context of an ambitious drive towards fundamental transition from a linear to a more circular economy.

...yng nghyd-destun ymgyrch uchelgeisiol i drawsnewid yr economi'n sylfaenol...

In a circular economy, re-use, repair and recycling become the norm...

Mewn economi gylchol, daw ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu yn ail natur...

The Communication also shows how new growth and job opportunities will emerge from a more efficient use of resources.

Mae'r Ohebiaeth hefyd yn dangos sut y bydd defnydd mwy effeithlon o adnoddau yn esgor ar dwf newydd...

Active support from research and innovation will unlock investment and attract financing, while promoting a strong role for business and participation by consumers.

Bydd cefnogaeth weithredol o gyfeiriad ymchwil ac arloesi'n agor y drws i fuddsoddiad ac yn denu cyllid, gan hybu rôl gadarn i fusnesau a chyfranogiad gan ddefnyddwyr ar yr un pryd.

Keeping materials in productive use for longer...

Byddai ymestyn oes gynhyrchiol deunyddiau...

Despite the fact that most women had little choice about working...

Er gwaetha'r ffaith nad oedd gan y rhan fwyaf o fenywod fawr o ddewis ynglŷn â gweithio...

...in factories, farms and the forces.

...mewn ffatrioedd, ar ffermydd ac yn y lluoedd arfog.

...husbands who were reluctant to let their wives work.

...wŷr oedd yn amharod i ganiatáu i'w gwragedd weithio.

...given the previously narrow number of jobs open to women in industrial Wales before the war.

...o ystyried cyn lleied o swyddi a oedd ar gael i fenywod...yn y Gymru ddiwydiannol cyn y rhyfel.

...years of mass unemployment.

...diweithdra'n rhemp.

Mae disgwyl i gyfieithwyr proffesiynol fedru ymdopi â heriau o'r math yma er mwyn cyrraedd safon Aelodaeth Gyflawn, a da oedd gweld enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus ym mhob sgrïpt arholiad. Ond yn anffodus, ochr yn ochr â hynny cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus, a hynny am amrywiol resymau. Mewn rhai manau roedd yr ymgeiswyr wedi dilyn y gwreiddiol yn rhy slafaid, gan greu cyfieithiad trwsogl nad oedd yn dilyn patrymau'r Gymraeg, e.e.:

But women's contribution extended far beyond paid employment.

Ond bu i gyfraniad menywod fynd yn llawer y tu hwnt i swyddi cyflogedig.

...join the war effort...

...ymuno â'r ymdrech ryfel...

Keeping materials in productive use for longer...

...cadw deunyddiau mewn defnydd cynhyrchiol am yn hirach...

Active support from research and innovation will unlock investment and attract financing, while promoting a strong role for business and participation by consumers.

Bydd cymorth ymchwil ac arloesi parhaus yn ffordd o ryddhau buddsoddiad a denu ffynonellau cyllido, ac yn hyrwyddo'r angen am rôl a chyfranogiad cryf gan fusnesau a defnyddwyr.

Cafwyd hefyd ormod o enghreifftiau o gamgyfieithu. O ystyried mai arholiad safon Gyflawn oedd hwn, ac felly bod disgwyl i'r ymgeiswyr gyrraedd safon broffesiynol yn eu gwaith, ni ellir derbyn ffurfiau fel y canlynol, sy'n gwbl gamarweiniol o ran ystyr:

...evacuees...

...ffoaduriaid...

...one of the enduring images of the war.

...delwedd boblogaidd o'r rhyfel.

...un o'r delweddau a barodd y rhyfel.

...dealing with air raids...

...chwarae rhan mewn cyrchoedd awyr...

...linear [economy]...

...economi un dimensiwn...

...new growth...

...twf net...

...many of the early volunteers were motivated...

...yn llawer o ysgogiad i'r gwirfoddolwyr...

Gwallau ystyr eraill a welwyd oedd hepgor rhai elfennau yn llwyr, o un gair (pwysig) [*waste*] i elfen gyfan [*forward-looking business models*], a chafwyd hefyd rai gwallau cystrawen/cywirdeb, megis hepgor rhagenwau [*yn gallu gwneud, a'r hyn ddylen nhw wneud*] a defnyddio ffurfiau amhriodol mewn cymalau [*O'r ffatrioedd cyflegrau newydd a ddaeth y galw mwyaf*]. Ni ellir derbyn gwallau fel y rhain gan gyfieithwyr proffesiynol, ac felly, yn anffodus, er bod addewid yng ngwaith pawb o'r ymgeiswyr yn y rownd hon, un o bob tri yn unig a lwyddodd i gynnal y safon ofynnol ym mhob un o'r tri darn.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 2

Llwyddo: 1

Dim ond dau ymgeisydd a gafwyd i'r Saesneg ar y lefel hon y tro hwn, ac er bod enghreifftiau o gyfieithu da yng ngwaith y ddau ohonynt, dim ond un ohonynt lwyddodd i gynnal y safon angenrheidiol ar hyd y tri darn, sef cyfieithu cadarn, medrus sy'n llwyddo i gyfleu union ystyr y gwreiddiol mewn modd sy'n darllen yn naturiol yn yr iaith darged.

Dewiswyd darn bwriadol heriol ar gyfer y gwaith cartref, a manteisiodd y ddau ymgeisydd ar y cyfle i ddangos eu doniau, gyda chyfieithiadau fel y canlynol:

Prin y gallai neb yng Nghymru ragweld y byddai llofruddio Franz Ferdinand yn effeithio ar Ewrop gyfan, heb sôn am esgor ar y rhyfel mwyaf erioed yn holl hanes y ddynoliaeth, ond yn fuan daeth yn amlwg y byddai Prydain yn cael ei sugno i ganol yr ymrafael oedd yn datblygu ar y cyfandir, a daeth gwrthdrawiad byd-eang yn anochel.

Scarcely could anyone in Wales have foreseen that the assassination of Franz Ferdinand would affect the whole of Europe, let alone bring about the largest war in the history of all mankind; but it soon became apparent that Britain would be drawn into the strife developing on the continent, and a world-wide conflict became inevitable.

Roedd mwyafrif llethol papurau newydd Cymru yn gryf o blaid y rhyfel, a chât'r lleisiau unigol a brotestiai eu boddi gan y torfeydd croch oedd yn daer eu cefnogaeth.

The vast majority of Welsh newspapers were strongly in favour of the war, and individual voices of dissent were drowned out by the vociferous crowds who were fierce in their support of it.

Ac eto, roedd dwy ergyd o wn gan fyfyrwr ifanc penboeth yn un o wledydd pellennig y Balcanau yn ddigon i yrru'r byd yn wenfflam.

Nevertheless, two gunshots by a young, hot-headed student in a far-away Balkan country were enough to send the world into turmoil.

Wrth droi at y darnau o dan amodau arholiad, eto cafwyd digonedd o enghreifftiau o gyfieithu medrus ac effeithiol, e.e.:

... gyda blas ysgawen a grawnffrwyth arno.

...with elderflower and grapefruit notes.

Gwin hafaidd ydyw, yn well ar ei ben ei hun nag efo bwyd...

It is a summery wine, better on its own than with food...

Fu fûm heibio lawer gwaith, heb erioed droi trwyn y beic i fyny at y tŷ fferm hardd...

I had cycled past many times, but had never ventured up to the charming farmhouse...

Ar y daith flasau, fe gewch roi cynnig ar y ddau win llonydd a'r rosé, ac fe lenwir eich gwydr at yr ymyl!

On the tasting tour you may sample the two still wines and the rosé, and your glass is filled to the brim!

Fe gafwyd y gwinoedd pefriog gyda'r te prynhawn, ac mae'r rhain yn gam i fyny o ran safon.

The sparkling wines were taken with the afternoon tea, and these are a step up in terms of quality.

Yn wir, sail model busnes Llanerch yw mai yno'n unig y gallwch ei brynu...

Indeed, the Llanerch business model is based on the fact that its produce is sold exclusively on site...

Cyntefig oedd cyflwr deintyddau yn y 1920au.

Dentistry was a primitive affair in the 1920s.

...byddai wastad yn cario dau binswrn – un i dynnu dannedd a'r llall yn efail i dorri cnau.

...he would always carry two pairs of pincers – one for extracting teeth and the other to use as a nutcracker.

Fyddai'n ddim iddo waredu gwas ffarm o'i boen...

He would think nothing of ridding a farm-hand of his pain...

Ymddengys bod i'r swydd yr un bri ag oedd i laddwr moch.

It appears that the occupation was as highly regarded as that of a pig slaughterer.

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos gallu i ddeall union ystyr y gwreiddiol, ac i fynegi'r ystyr honno mewn iaith sy'n llifo'n naturiol ac yn idiomatig yn yr iaith darged, fel bod y darllynydd yn cael ei argyhoeddi'n llwyr. Dyma'n union yr hyn a ddisgwylir ar lefel Aelodaeth Gyflawn.

Yn anffodus, fodd bynnag, mewn manau nid oedd y gwaith a gyflwynwyd o dan amodau arholiad yn cynnal y safon hon, yn bennaf oherwydd bod y cyfieithiad yn glynu'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol, e.e.:

...roedd yn bosib i unrhyw berson ei sefydlu ei hun fel tynnwr dannedd ar yr amod nad oedd ganddo'r hawl i'w alw ei hun yn ddeintydd.

...it was possible for anyone to establish themselves as a tooth puller, on the condition that he did not have the right to call himself a dentist.

Buasai defnyddio 'anyone could' (i gadw pwyslais y gwreiddiol) a 'tooth extractor' wedi gwella'r cyfieithiad yn sylweddol.

Mae'n rhaid ei fod yn ei gweld hi'n mynd yn gyfyng arno fel gweinidog...

He must have felt constricted as a minister...

Nid yw 'constricted' yma yn cyfleu'r ystyr yn effeithiol, gan fod angen cyfeirio at yr elfen o gyni ariannol.

Fe fûm heibio lawer gwaith, heb erioed droi trwyn y beic i fyny at y tŷ fferm hardd...

Many times we passed by without steering the nose of the bike up towards the beautiful farm house...

Yma, yn ogystal â'r newid (diangen ac anaddas) i'r lluosog, mae'r ymgeisydd wedi ceisio cadw at y patrwm sydd yn yr iaith wreiddiol, ond mae'n swnio'n drwsogl iawn yn y Saesneg. O ddewis cadw mor agos â hyn at y gwreiddiol, mae'n rhaid dewis ymadrodd sy'n taro deuddeg yn yr iaith darged; buasai '*without ever turning the handlebars in the direction of...*' yn un posibilrwydd.

Gwendidau ystyr a chywair, felly, sydd wedi atal yr ail ymgeisydd rhag llwyddo y tro hwn, ond mae safon y gwaith cartref a rhannau gorau'r darnau dan amodau arholiad yn dangos bod llwyddiant yn bendant o fewn cyrraedd – dalier ati!

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon, fel bob amser, i holl aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Tachwedd 2019